



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Preswyl Min y Môr

**Cartref Preswyl Min y Môr
Maes yr Heli
Aberaeron
SA46 0BQ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/08/2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Gofal Preswyl Min y Môr

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion
Lleuedd cofrestredig	30
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Ydy

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus iawn â'r cymorth y maent yn ei gael ac maent yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddarparu eu gofal. Caiff y staff eu harwain gan gynlluniau manwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae'r rhyngweithio'n gyfeillgar ac yn llawn anogaeth. Mae'r bobl yn hoffi rheolwr y gwasanaeth ac yn ei pharchu, ac maent yn ymddiried ynddi.

Mae'r amgylchedd yn wael ac nid yw'n ychwanegu at lesiant y bobl. Mae'r darparwr yn ymwybodol o'r problemau hyn ac mae wedi dechrau adnewyddu'r adeilad. Rydym wedi nodi hyn yn Faes i'w Wella. Rydym yn disgwyl i'r darparwr roi blaenoriaeth i'r gwaith gwella hwn ac i barhau i adnewyddu a gwella'r cartref.

Nid yw'r darparwr yn rheoli'r gwasanaeth yn ddigonol, a gallai hyn beryglu iechyd a llesiant y bobl. Rydym wedi cyflwyno Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr ac yn disgwyl gweld cydymffurfiaeth o ran trefniadau goruchwyllo a rheoli'r gwasanaeth.

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol arfaethedig newydd weledigaeth glir o ran y ffordd y mae'n bwriadu arwain y gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth wedi'u teilwra i'r unigolyn. Cânt eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar y ffordd y caiff eu gofal ei ddarparu ac mewn trafodaethau am faterion sy'n bwysig iddynt. Nodir hyn mewn cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r bobl yn cadw mor iach â phosibl gan eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o'r staff sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Dywedodd un o'r bobl wrthym, "*The staff are lovely and really good, I like them*" (mae'r staff yn hyfryd ac yn dda iawn, rwy'n eu hoffi). Mae'r bobl yn ymgysylltu â'r gweithwyr gofal ac mae'r rhyngweithio'n galonogol ac yn gyfeillgar. Dywedodd un perthynas wrthym, "*All of the staff are excellent, they are so patient, caring and comforting. I'd say they are first class, they've just 'got it' and nothing is too much for them*" (Mae'r staff i gyd yn wych, maen nhw mor amyneddgar, gofalgar a chysurlon. Maen nhw'n ardderchog yn fy marn i, maen nhw'n deall, a does dim byd yn ormod iddyn nhw). Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y mynnant. Drwy brosesau recriwtio a hyfforddiant, gwneir yn siŵr bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth iawn gan weithwyr medrus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwr.

Ni chaiff y bobl eu gwerthfawrogi na'u parchu bob amser gan fod y mwyafrif o'r amgylchedd mewn cyflwr gwael ac mae angen ei adnewyddu. Wrth drafod yr amgylchedd, dywedodd un o'r gweithwyr wrthym, "*I can't remember the last time it was decorated – it looks sad in places. The care is really good but the décor lets us down*" (Alla i ddim cofio'r tro diwethaf iddo gael ei baentio – mae'n edrych yn ddiflas mewn mannau. Mae'r gofal yn dda iawn, ond mae'r addurno yn siomedig). Mae dwy o'r ystafelloedd gwely wedi cael eu hailaddurno, a dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym mai dyma safon gweddill y gwaith arfaethedig.

Ni all y bobl leisio eu barn gan nad yw'r darparwr bob amser yn ymgynghori'n ddigonol â'r bobl na'u perthnasau. Mae Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cael ei gyflwyno o ganlyniad i'r risgiau posibl i iechyd a llesiant y bobl. Disgrifiodd yr unigolyn cyfrifol arfaethedig newydd sut mae'n bwriadu monitro ansawdd yn y dyfodol

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt. Maent yn disgrifio cydberthnasau cadarnhaol â'r holl weithwyr. Mae'r bobl yn cyfathrebu â'i gilydd ac â'r tîm o staff yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd un o'r bobl yn y gwasanaeth wrthym, "*staff are lovely and nice, they are very helpful*" (mae'r staff yn hyfryd ac yn garedig, maen nhw'n barod iawn eu cymwynas). Gwelsom lawer o achosion o ryngweithio cadarnhaol drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, "*I really enjoy working here. Just to see the different characters, make them smile, have a laugh*" (Rwy'n mwynhau gweithio yma yn fawr iawn. Dim ond i weld y cymeriadau gwahanol, codi gwên ar eu hwyneb, cael hwyl). Dywedodd un o'r perthnasau wrthym, "*every one of the staff are fantastic, we couldn't wish for more, they are patient and understanding and I can't praise them enough for the fantastic work they do. If there are awards they all deserve one*" (mae pob un o'r staff yn wych, gallen ni ddim gofyn am fwy, maen nhw'n amyneddgar ac yn ddeallgar, a galla i ddim canu eu clodydd ddigon am eu gwaith rhagorol. Maen nhw'n haeddu gwobr).

Mae gan y darparwr gynlluniau cywir a chyfredol ar gyfer y ffordd y darperir gofal a chymorth i'r bobl. Gwelsom enghreifftiau gwych o lyfrau atgofion sy'n cyfleu'r unigolyn i'r dim, gyda lluniau a dyfyniadau gan y teulu yn dod â'r cynllun yn fyw. Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth a geir gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr, y gweithwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae asesiadau risg yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel, ond gan gynnal eu hannibyniaeth ar yr un pryd. Mae'r uwch-aelodau o'r staff yn adolygu'r holl gynlluniau gyda'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd. Gwelsom dystiolaeth dda yn y ddogfennaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl. Siaradodd un o'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gadarnhaol am y cydweithio, gan ddweud wrthym, "*It's a very friendly and caring home*" (Mae'n gartref cyfeillgar a gofalgarn iawn). Mae'r nodiadau dyddiol yn anghyson, ac nid ydynt yn dangos canlyniadau'r bobl bob amser. Gwelsom mai'r unig gofnod mewn sawl achos oedd 'no concerns' (dim pryderon). Rydym yn disgwyl i'r darparwr fynd i'r afael â hyn a byddwn yn ailystyried y sefyllfa yn yr arolygiad nesaf.

Yn ystod y pandemig, mae teulu a ffrindiau'r preswylwyr yn cadw mewn cysylltiad â nhw drwy alwadau fideo a galwadau ffôn. Cynhelir asesiad risg ar gyfer pob ymweliad, a gwelsom y bobl yn cwrdd â'u teuluoedd a'u ffrindiau yn yr ardd a'r caban i ymwelwyr. Siaradodd un o'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gadarnhaol am y cymorth y mae'n ei gael i fynd allan i'r gymuned bob wythnos.

Mae lefelau staffio digonol ar waith i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael digon o amser i gefnogi'r bobl yn briodol. Gwelsom y staff gofal yn ymateb i geisiadau gan y bobl mewn modd amserol. Roedd y rhyngweithio yn gyfeillgar ac yn rhwydd. Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd pawb yn edrych ymlaen at y daith grŵp gyntaf i gael ei chynnal ers i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Mae gan y darparwr bolisiâu a gweithdrefnau i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Gwelsom y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir ac yn dilyn canllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Nid yw'r amgylchedd yn hybu llesiant gan fod y rhan fwyaf o'r addurn yn anneniadol, y carpedi wedi treulio, y gwaith paent wedi'i ddifrodi a'r papur wal yn dod oddi ar y waliau. Mae dwy ystafell wag wedi cael eu hailaddurno'n llawn ac maent yn edrych yn olau ac yn ffres. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod cyllid ar gael ar gyfer y rhaglen addurno, ac mai dyma fydd safon y rhaglen gyfan. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu haddasu i ddarparu mwy o gyfleoedd i'r bobl gymdeithasu: tafarn, siop trin gwallt a chegin ar gyfer meithrin sgiliau. Mae'r ystafelloedd unigol wedi'u personoli â ffotograffau, dodrefn a goleuadau. Mae poster ar bob drws yn cyflwyno'r unigolyn, sy'n ffordd wych o ddechrau sgwrs. Gwelsom wybodaeth gyfrinachol yn un o'r ystafelloedd ymolchi cymunedol; aeth y dirprwy reolwr â'r wybodaeth oddi yno yn syth. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn awyddus i'r adeilad gael ei ailaddurno. Dywedodd un o'r gweithwyr wrthym, "*Some of the wall paper has been up for at least 15 years. Can't remember the last time the home was decorated*" (Mae rhywfaint o'r papur wal wedi bod yno ers 15 mlynedd o leiaf. Alla i ddim cofio'r tro diwethaf i'r cartref gael ei addurno). Mae dwy ardal y tu allan i'r adeilad ar gael i'r bobl eu defnyddio. Fodd bynnag, mae gweddill tir y cartref yn anniben ac nid oes modd defnyddio'r ardaloedd yn ddiogel gan nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw. Mae'r darparwr yn ymwybodol o'r heriau a berir gan yr adeilad ac mae cynllun ar waith. Rydym wedi nodi hyn yn Faes i'w Wella ac rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn parhau â'i raglen i adnewyddu'r adeilad.

Cwblheir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae'r cartref yn cydymffurfio â Rheoliadau Tân ac mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Mae'r gegin wedi cael tystysgrif sgôr hylendid bwyd pum seren. Mae'r bobl yn dewis o'r fwydlen bob dydd ac mae dewisiadau amgen ar gael. Dywedodd un o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, "*I'm gluten free and they are good at making sure I get nice meals*" (Alla i ddim bwyta glwten ac maen nhw'n dda am wneud yn siŵr fy mod yn cael prydau bwyd blasus). Mae'r gweithwyr gofal yn dilyn cynlluniau i ddiwallu anghenion maeth y bobl. Dywedodd un perthynas wrthym, "*Food is excellent and they are very accommodating. Mum was prescribed nourishment drinks and they make sure she has them. The proof is in the pudding because she looks great – her skin, hair and nails look great*" (Mae'r bwyd yn wych ac maen nhw'n barod iawn eu cymwynas. Mae Mam yn cael diodydd maeth ar bresgripsiwn, ac maen nhw'n gwneud yn siŵr ei bod hi'n eu cael. Wrth ei flas mae profi pwddin, ac mae hi'n edrych yn wych – mae ei chroen, ei gwallt a'i hewinedd yn edrych yn wych).

Mae mesurau COVID-19 ychwanegol ar waith. Gwelsom fod gorsafoedd diheintio ar gael ym mhob rhan o'r cartref a bod gweithdrefn brofi lem ar waith ar gyfer pob ymwelydd.

Arwain a Rheoli

Nid oes gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Ni chafodd ymweliadau chwarterol statudol yr unigolyn cyfrifol â'r gwasanaeth eu cwblhau bob amser yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Pan gynhaliwyd ymweliadau, ni ymgynghorwyd yn ddigonol â'r bobl na'r gweithwyr. Er ein bod yn cydnabod yr anawsterau a fu yn sgil y pandemig, ni wnaed unrhyw drefniadau amgen i geisio barn y bobl. Roedd yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal chwe misol yn cynnwys tystiolaeth o adborth cadarnhaol gan y bobl am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Roedd hefyd yn nodi'r angen i aildechrau'r gwaith a'r gwelliannau arfaethedig i'r eiddo. Gallai'r diffygion yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei oruchwylio beri risg i iechyd a llesiant y bobl, felly rydym wedi cyflwyno Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth. Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol arfaethedig newydd (sydd wrthi'n mynd drwy'r broses gofrestru) amlinellu ei gynlluniau i wella'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei oruchwylio. Mae'n bwriadu defnyddio'r adnoddau sicrhau ansawdd sydd eisoes ar waith yn ogystal â thrafodaethau un i un.

Mae diwylliant o fod yn agored yn y cartref, ac mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Dywedodd un perthynas wrthym, *“the manager is brilliant and very approachable, easy to talk to and gets things sorted, she’s excellent”* (mae'r rheolwr yn wych ac yn hawdd mynd ati. Mae'n hawdd siarad â hi ac mae'n sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud, mae'n wych). Mae'r gweithwyr gofal yn gadarnhaol am y gefnogaeth y maent yn ei chael. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal fod y rheolwr yn *“fantastic, supportive, door is always open, listens to any concerns you have. The assistant manager works hard, much the same as the manager”* (yn wych, yn gefnogol, mae ei drws bob amser ar agor ac mae'n gwrandao ar unrhyw beth sy'n eich poeni. Mae'r rheolwr cynorthwyol yn gweithio'n galed, yr un peth â'r rheolwr). Cadarnhaodd ei fod yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd, gan gynnwys arfarniadau blynyddol. Drwy drafodaethau â'r staff, gwelwyd bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion diogelu. Roedd pob un ohonynt yn hyderus y byddai'r rheolwr yn cymryd camau ar sail unrhyw bryderon. Gwelsom y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio, gan gynnwys gwirio geirdaon a'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff gweithwyr gofal hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i unigolion er mwyn diwallu anghenion y bobl a sicrhau bod modd cyflawni canlyniadau.

Mae digon o staff yn gweithio i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr gofal wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn, wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac yn deall eu hamgylchiadau a'u hanghenion unigol.

**Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Wedi ei gyflawni**

**Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Heb ei gyflawni**

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau

Dim	
-----	--

Dyddiad Cyhoeddi 22/10/2021